# Cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Blant sy'n Derbyn Gofal

## Dydd Mawrth 12 Mawrth 2019

## 12:30–13:30

**Aelodau'r Cynulliad yn bresennol:**

David Melding AC – Cadeirydd (DM)

**Yn bresennol:**

Janet Finch-Saunders AC

Y Cynghorydd Graham Hinchey - Cyngor Caerdydd (GH)

Deborah Jones - Prif Swyddog Gweithredol, Voices From Care Cymru (DJ)

Heidi Keizer - NSPCC

Y Cynghorydd Ash Lister - Cyngor Caerdydd

Y Parchedig Philip Mangham - Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig

Sean O'Neil - Plant yng Nghymru (SON)

Iwan Williams - Gofal Cymdeithasol Cymru

Menna Thomas - Barnardo's Cymru

Ann Bell - Adoption UK (AB)

Paula Foley - Staff Cymorth Jenny Rathbone AC

Sian Thomas - Gwasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Elizabeth Flowers - Staff Comisiynydd Plant Cymru

Sharon Lovell - NYAS Cymru (SL)

Siôn Jones - Staff Cymorth Helen Mary Jones AC

Catriona Williams - Prif Weithredwr, Plant yng Nghymru

Hannah Trezise - Gwasanaeth Cymorth Busnes Aelodau Janet Finch Saunders AC

Tim Crahart - Rheolwr Cymorth Busnes, Voices From Care Cymru - (cymerwr cofnodion) (TC)

**Cafwyd ymddiheuriadau gan:**

Maria Boffey – Pennaeth Gweithrediadau, Rhwydwaith Maethu Cymru

Dan Willis - Stepping Stones

Tom Davies - Cymdeithas y Plant

Iwan Williams - Gofal Cymdeithasol Cymru

Lucy Treby - Gofal Cymdeithasol Cymru

1. **Croeso a chyflwyniad gan y Cadeirydd**
   Croesawodd DM y grŵp
   Croesawyd Ann Bell fel aelod newydd o'r grŵp.

2. **Cofnodion**
   Cynigiodd MT gywiriad i'r cofnodion. Newid Elaine Speyer o'r NSPCC i Barnardos.
   Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf a chytunwyd arnynt.
   Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

3. **Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**
   Dywedodd DM fod adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (PCC) wedi'i gyhoeddi. Mae copïau caled ar gael neu gellir eu cyrchu ar-lein yn www.cynulliad.cymru/SeneddArchwilio. Ymatebodd LlC ar 17 Ionawr. Gwnaed 12 o argymhellion a derbyniwyd pob un ond un. Cam cyntaf gwaith PCC yw hwn. Mae'r PCC wedi ymateb i'r Llywodraeth yn gofyn am eglurder ar rai o'u hymatebion.
   Er bod y PCC a'r adroddiad yn canolbwyntio ar werth am arian, mae hefyd yn edrych ar ganlyniadau ac yn casglu tystiolaeth gan bobl ifanc.
   Dywedodd DM fod yr adroddiad a gwaith y PCC yn dod â llawer o bwysau gwleidyddol a sylw i'r system derbyn gofal. Ychwanegodd fod yn rhaid i rianta corfforaethol dorri allan o wasanaethau plant ac i mewn i'r byd gwleidyddol. Mae'n rhaid i gynghorwyr lleol, Aelodau'r Cynulliad a'r Prif Weinidog chwarae eu rhan.
   Anogodd DM y grŵp i ddarllen yr adroddiad.

4. **Grŵp Cynghori'r Gweinidog (GCG)**
   Dywedodd DM fod y Cynulliad bellach hanner ffordd drwy ei dymor ac y bydd GCG yn gweithio drwy gydol y cyfnod hwn. Hyd yn hyn mae'r grŵp wedi canolbwyntio ar ymestyn ei sylfaen wybodaeth, casglu data ac ati, ond mae nawr yn gofyn y cwestiwn 'Beth fyddwn ni'n ei wneud gyda'r wybodaeth hon?'
   Ychwanegodd fod dros 6,000 o bobl ifanc mewn gofal yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae nifer y plant a phobl ifanc sy'n dod i mewn i ofal yn gostwng ac mae gwasanaethau ar ffiniau gofal yn gwella. Fodd bynnag, nid yw'r niferoedd yn gyson ar draws yr holl awdurdodau lleol.
   Dywedodd DM fod y Prif Weinidog a'r Dirprwy Weinidog newydd yn adnabod y sector yn dda. Bydd hyn yn rhoi ffocws ac egni newydd i'r grŵp. Mae materion yn debygol o ddod i'r amlwg yn y chwe mis nesaf ac mae'n debygol y bydd canllawiau ar rianta corfforaethol yn cael eu datblygu.
   Bydd GCG hefyd yn gweithio ar argymhellion adroddiad PCC.
   - Cyrhaeddiad addysgol: mae hwn yn faes allweddol ac mae'n ddangosydd da o ganlyniadau ar gyfer plant â phrofiad gofal. Os oes ganddynt ymlyniad da, maent yn fwy tebygol o wneud yn dda.

- Nifer y lleoliadau diogel: mae hyn yn bryder i'r Llywodraeth. Mae lleoliadau yn gymysgedd rhwng lles a chyfiawnder troseddol. Yn anecdotaidd, mae yna deimlad mai nifer y lleoliadau sydd ar gael yw'r nifer sy'n cael eu llenwi. Bydd GCG yn gweithio gydag awdurdodau lleol i edrych ar wahaniaethau ar draws ardaloedd.
- Rheoli'r system ofal: Sut mae awdurdodau lleol yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i reoli'r system ofal.

**5. Mabwysiadu a'r gymuned sydd â phrofiad gofal**

Rhoddodd Ann Bell o Adoption UK Cymru gyflwyniad ar brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod.

Dechreuodd drwy esbonio mai Cymru yw'r unig wlad sydd â gwasanaeth mabwysiadu cenedlaethol. Ychydig iawn a wyddom am gyrhaeddiad addysgol plant a fabwysiadwyd. Yn Lloegr, gall rhieni dynnu arian i lawr ar gyfer plant a fabwysiadwyd mewn ysgolion.

Aeth AB ymlaen i ddweud, pan gaiff plant eu mabwysiadu, nid yw'n ailysgrifennu eu hanes. Daw trawma o ganlyniad i brofiad niweidiol yn ystod plentyndod. Mae Prifysgol Caerdydd wedi gwneud gwaith ymchwil. Mae gan 47 y cant o blant a fabwysiadwyd bedwar neu fwy o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Mae gwaith ar brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn amlygu anhwylderau datblygiadol.

Mae'r llywodraeth wedi rhoi £2.3 miliwn at wasanaethau mabwysiadu.

Mae Adoption UK ar hyn o bryd yn rhedeg yr ymgyrch Cyfle Cyfartal. Mae'r ymgyrch yn cydnabod nad yw pob plentyn yn cael dechrau cyfartal mewn bywyd ond mae pob plentyn yn haeddu cyfle cyfartal yn yr ysgol.

Siaradodd AB am y prosiect Gwasanaethau Cymorth Addysg Therapiwtig mewn Mabwysiadu (TESSA). Canfu nad oedd angen cymorth addysgol ar draean o blant a fabwysiadwyd, roedd angen cymorth ar draean ac roedd angen cymorth dwys ar draean arall.

Diolchodd DM i AB am y cyflwyniad a dywedodd ei fod yn llawn gwybodaeth ac yn ddefnyddiol. Cododd fater syndrom alcohol y ffetws (SAFf) a sut y gall lefelau isel iawn o alcohol effeithio ar y ffetws. Dywedodd fod Aelodau Senedd yr Alban yn gweithio gyda chanolfannau SAFf a'u bod wedi nodi fod gan 70 y cant o blant a fabwysiadwyd SAFf.

Gofynnodd DJ i AB a nodir plant a fabwysiadwyd fel bod â phrofiad gofal. Dywedodd AB y byddai hyn yn dibynnu ar eu hoedran pan gawsant eu mabwysiadu a sut mae eu rhieni yn siarad am eu mabwysiad.

Gofynnodd DJ a oedd yna berygl o ran labelu plant â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod, gan fod llawer o bobl ifanc sydd â phrofiad gofal wedi datblygu lefel o wytnwch er gwaethaf eu cefndiroedd. Dywedodd AB y gall bod yn ymwybodol o brofiad niweidiol yn ystod plentyndod helpu plant a phobl ifanc i ddeall eu hymddygiad yn well ac mai nid dim ond bod yn ddrwg y maent.

Gofynnwyd i AB am wasanaethau cymorth addysg therapiwtig mewn mabwysiadu (TESSA). Atebodd eu bod yn cynorthwyo rhieni a'r teulu yn bennaf, ond yn aml canfyddir bod angen cymorth yn yr ysgol hefyd.

Dywedodd GH fod yna alw am fwy o arian ar gyfer gwasanaethau ar ffiniau gofal a mabwysiadu a gofynnodd pa strwythurau gwell allai fodoli.

Teimlai AB na fyddai'n dymuno i gwasanaeth mabwysiadu cenedlaethol newid llawer gan ei fod yn gweithio'n gymharol dda. Ychwanegodd y dylai arian fod yn fwy ar gyfer cymorth na strwythur.

Dywedodd SL fod gan bobl ifanc â phrofiad gofal fynediad at wasanaethau eirioli statudol ond nad oes gan blant a phobl ifanc a fabwysiadwyd yr un hawl.

Atebodd AB drwy ddweud bod Adoption UK yn ymwybodol o hyn.

**6. Unrhyw fater arall**

Dywedodd DM y byddai'n gwerthfawrogi mewnbwn i'r ffordd y cafodd y grŵp ei redeg a gofynnodd pa bynciau y gallai'r grŵp eu cynnwys.

Yna nodwyd y pynciau canlynol:

- Rhwystrau rhag cael mynediad at wasanaethau ar gyfer lleoliadau y tu allan i'r sir h.y. gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed
- Canllawiau ar rianta corfforaethol; sut y gall y grŵp ddylanwadu ar ganllawiau
- Anghenion dysgu ychwanegol a phrofiad gofal.
- Ymwelwyr annibynnol; diweddariad ar arfer gan ei fod yn ymddangos yn anghyson
- Bil Hawliau ar gyfer pobl o bob oed
- Cydweithio â grwpiau trawsbleidiol eraill
- Adroddiad Cadernid Meddwl; briff gwylio
- Cyllid; Llywodraeth Cymru yn dwyn awdurdodau lleol i gyfrif
- Ar ffiniau gofal; sut olwg sydd ar hyn

- Agenda profiadau niweidiol yn ystod plentyndod; creu cydbwysedd rhwng stigmateiddio a dathlu

**7. Dyddiad y cyfarfod nesaf**

12:30 ar 4 Mehefin 2019 yn Ystafell Gynadledda B, llawr gwaelod, Tŷ Hywel.